Llywodraeth Cymru

# Plant sydd ar yr ymylon

Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Rhagfyr 2024)

21/01/2025

Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ganfyddiadau ei ymchwiliad i blant ar yr ymylon (yn ymwneud â phlant sy’n mynd at goll a’r rhai sy’n destun neu mewn perygl o gamfanteisio troseddol). Mae’r adroddiad yn cynnwys 23 o argymhellion.

Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i’r argymhellion.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad......3**

**2. Ymateb i'r 23 argymhelliad ......4**

Argymhelliad 1 ......4
Argymhelliad 2 ......4
Argymhelliad 3 ......5
Argymhelliad 4 ......6
Argymhelliad 5 ......6
Argymhelliad 6 ......6
Argymhelliad 7 ......7
Argymhelliad 8 ......7
Argymhelliad 9 ......8
Argymhelliad 10 ......9
Argymhelliad 11 ......9
Argymhelliad 12 ......10
Argymhelliad 13 ......11
Argymhelliad 14 ......11
Argymhelliad 15 ......12
Argymhelliad 16 ......13
Argymhelliad 17 ......13
Argymhelliad 18 ......14
Argymhelliad 19 ......14
Argymhelliad 20 ......15
Argymhelliad 21 ......16
Argymhelliad 22 ......17
Argymhelliad 23 ......17

# Cyflwyniad

Mae'r ymchwiliad i Blant ar yr Ymylon wedi rhoi cyfle pwysig i fyfyrio ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn a chanolbwyntio ar yr hyn rydym am ei gyflawni yn y dyfodol.

Rydym wedi sicrhau cynnydd wrth ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Rydym wedi cyflwyno rheoliadau i gryfhau'r gofynion o ran diogelu, llywodraethiant a hyfforddiant ar ysgolion annibynnol; ei gwneud yn ofynnol i'r staff cymorth addysgu a dysgu mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg; ac i reoleiddio Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig, mewn modd tebyg i gartrefi gofal i blant, fel gwasanaeth a reoleiddir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i gyflawni'r canlyniadau a'r amddiffyniadau gorau ar gyfer pob plentyn.

Rydym yn diolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am eu hadroddiad a'u hargymhellion mewn perthynas â phlant ar yr ymylon. Nodwn ein hymateb i'r argymhellion isod.

# Ymateb i'r 23 o argymhellion

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a heddluoedd i gymryd camau cadarn, ar unwaith i sicrhau bod y data y mae'n eu cyhoeddi am blant sydd ar goll o ofal a chyfnodau o fynd ar goll ymhlith plant sy'n derbyn gofal a chymorth (a geir gan awdurdodau lleol) yn gywir ac yn ddibynadwy. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl inni o fewn chwe mis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y materion a nodwyd gan y bartneriaeth a'r camau a gymerwyd.

**Ymateb:** Derbyn (yn amodol ar drafodaeth am yr amserlen).

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i arwain awdurdodau lleol wrth fesur a gwella eu gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae'r Fframwaith Perfformiad a Gwella yn cynnwys data ar gyfanswm yr adroddiadau am blant yn mynd ar goll o ofal a chyfanswm y plant sy'n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn gwella'r data hwn, ychwanegwyd 'mesur person coll' at Gyfrifiad Plant 2023/24 i nodi'r nifer o weithiau y mae pob plentyn/person ifanc wedi mynd ar goll yn y flwyddyn gasglu. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i'r mesur gael ei gynnwys wrth gasglu data, rydym yn cydnabod y gallai fod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau adroddiadau cyson.

Y llynedd, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp llywio rhanddeiliaid ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc yr adroddir eu bod ar goll o'r cartref neu o ofal. Bydd y grŵp yn mapio pa ddata sy'n cael ei gasglu, pwy sy'n ei gasglu ac i ble y mae'r data'n cael ei adrodd. Bydd hyn yn galluogi'r grŵp i nodi unrhyw fylchau a datblygu camau pellach i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Mae hyn yn debygol o olygu datblygu ymhellach y mesurau sy'n cael eu cofnodi ar hyn o bryd. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o heddluoedd a swyddogion arbenigol sy'n arwain ar ddiogelu plant sy'n mynd ar goll o gartref neu ofal. Mae'r grŵp yn un amlasiantaethol er mwyn adlewyrchu'r asiantaethau lluosog sy'n ymwneud â phlant sy'n mynd ar goll.

## Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal astudiaeth ddichonoldeb i ddatblygu datganiad data sydd mor gywir, dibynadwy a chynhwysfawr â phosibl, ac sy'n cwmpasu pob cyfnod o blant sy'n mynd ar goll yng Nghymru. Dylid dadansoddi'r data ar wahân yn ôl oedran, profiad o fod mewn gofal, awdurdod lleol, y prif reswm dros fynd ar goll (os yw'n hysbys), ac ar y cyd â rhanddeiliaid, unrhyw ffactorau eraill y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn ddefnyddiol at ddibenion datblygu polisi.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor.

Rydym yn derbyn bod angen rhagor o waith i ddatblygu cywirdeb a dibynadwyedd y data sydd ar gael. Rydym wedi amlinellu camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i ddatblygu data sy'n ymwneud â chyfnodau o fynd ar goll yn ein hymateb i Argymhelliad 1. Yng ngoleuni'r camau sydd eisoes ar y gweill, nid ydym yn bwriadu cynnal astudiaeth ddichonoldeb. Bydd yr ymarfer mapio sy'n cael ei gynnal gan y grŵp llywio rhanddeiliaid ar ddiogelu plant a phobl ifanc yr adroddir eu bod ar goll o'r cartref neu o ofal yn llywio'r camau nesaf.

## Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio deddfwriaeth i wneud y cynnig o gyfweliad dychwelyd yn ofyniad statudol ar ôl pob cyfnod o fynd ar goll. Dylai'r plentyn gael yr hawl i benderfynu pwy sy'n cynnal y cyfweliad hwnnw o blith cronfa o oedolion cymwys y gellir ymddiried ynddynt, a dylid cyhoeddi canllawiau statudol cadarn i ymarferwyr i nodi'n glir sut y dylid cynnal cyfweliadau dychwelyd er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru. Fel rhan o'r canllawiau hyn, dylai Llywodraeth Cymru greu ffurflen i ymarferwyr ei defnyddio sy'n nodi a gafodd cynnig cyfweliad dychwelyd ei dderbyn neu ei wrthod, er mwyn gallu rhannu'r data hyn yn hawdd â rhanddeiliaid perthnasol.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor.

Rydym yn cydnabod manteision cyfweliadau dychwelyd adref yn dilyn cyfnodau o fynd ar goll ac mae sawl enghraifft o arfer dda ledled Cymru. Gwnaethom gomisiynu ymchwil i lywio ein dull gweithredu, ond ni chafwyd consensws ynghylch a ddylid gwneud cyfweliadau dychwelyd adref yn orfodol a phwy ddylai eu cynnal.

Mae gan blant a phobl ifanc sydd mewn gofal eisoes hawl statudol i gael eiriolwr annibynnol, gan gynnwys pan fyddant wedi cael eu hadrodd ar goll.

Yn dilyn digwyddiad bord gron yn 2024, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp llywio rhanddeiliaid ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc yr adroddir eu bod ar goll o'r cartref neu o ofal. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Cymdeithas y Plant, Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, y GIG, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, polisi ac ymarfer Cyfiawnder Ieuenctid, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Byrddau Diogelu Rhanbarthol, grwpiau Cymru gyfan megis Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yr Uned Atal Trais, Gwasanaeth Diogelu'r GIG a swyddogion sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae'r grŵp llywio rhanddeiliaid yn datblygu canllawiau i sicrhau bod plant yn cael cynnig cyfarfod yn dilyn cyfnod o fynd ar goll (gan gydnabod yr egwyddorion a nodir yn 'Canllaw Arfer Cymru Gyfan – Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal'). Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y canllawiau'n archwilio manteision ac ymarferoldeb creu ffurflen neu fecanwaith cofnodi ar gyfer ymarferwyr sy'n nodi a gafodd cynnig cyfweliad dychwelyd ei dderbyn neu ei wrthod.

O ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn, nid ydym yn credu bod angen diwygio deddfwriaeth ar hyn o bryd.

# Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at Lywodraeth y DU i eirioli dros ddiffiniad statudol o Gamfanteisio Troseddol ar Blant fel rhan o'i Bil Troseddu a Phlismona sydd ar ddod. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl inni gyda'r ymateb a ddaw i law, a ddylai hefyd gynnwys crynodeb o unrhyw drafodaethau rhynglywodraethol perthnasol sydd wedi'u cynnal ers mis Medi 2024.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu, ac yn parhau i ymgysylltu, â Llywodraeth y DU ar y dull o ymdrin â Chamfanteisio Troseddol ar Blant yn y Bil Troseddu a Phlismona arfaethedig. Byddwn yn parhau â'n trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, i gynnwys y potensial am ddiffiniad statudol o Gamfanteisio Troseddol ar Blant.

# Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ar fanteision neu fel arall strategaeth genedlaethol i ymateb i Gamfanteisio Troseddol ar Blant yn sgil y pryderon a fynegwyd yn yr adroddiad hwn ynghylch arferion anghyson ledled Cymru.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor.

Nid ydym yn ystyried ei bod yn hanfodol datblygu strategaeth genedlaethol i sicrhau mwy o gysondeb yn ymarferol. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried y mater ac yn rhannu ein barn gyda'r Pwyllgor. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n partneriaid yng Nghymru ac yn y Swyddfa Gartref i drafod ffyrdd o wella rhannu ymarfer a gwella cysondeb ymarfer. Rydym yn cynllunio gweithdy cenedlaethol ym mis Mawrth 2025 a fydd yn ystyried dulliau gweithredu ac yn llywio gwaith yn y dyfodol yng Nghymru.

# Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Yn ei deddfwriaeth sydd ar ddod, dylai Llywodraeth Cymru:

- sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sy'n ddigartref, neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref, yn cael blaenoriaeth mewn perthynas â chategorïau eraill o ymgeiswyr; a
- chreu categori 'dewis rhesymol' gorfodol ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal (ni waeth beth fo'u statws digartrefedd) yng nghynlluniau tai cymdeithasol awdurdodau lleol.

**Ymateb:** Derbyn.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar ddod â digartrefedd i ben ym mis Hydref 2023 a dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw ym mis Ebrill 2024. Mae Bil yn awr yn cael ei ddatblygu. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod

anghenion y rhai sy'n gadael gofal yn cael eu blaenoriaethu yn y gwaith hwnnw a bydd ein swyddogion yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cyd-fynd â'n nodau rhianta corfforaethol.

Cafodd gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru eu hailwampio gyda'r holl randdeiliaid yn ystod ein hymateb i COVID-19. Rydym wedi parhau â'r gwaith a'r ymarfer hwn drwy gyflwyno'r 11eg categori o angen blaenoriaethol yn 2022 a bydd Bil y dyfodol yn ymdrechu i sicrhau'r dull hwn.

## Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Os nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon cadw statws angen blaenoriaethol ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, dylai gynnal a chyhoeddi, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, asesiad cadarn o effeithiau dileu statws angen blaenoriaeth ar bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

**Ymateb:** Derbyn (yn amodol ar drafodaeth am yr amserlen).

Mae diddymu'r prawf angen blaenoriaethol yn agwedd allweddol ar y pecyn o ddiwygiadau sydd wedi'u hystyried yn fanwl a gyflwynwyd yn y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Bydd ei ddileu yn creu system fwy cyffredinol sy'n cyflawni ein nodau o ddarparu ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar drawma, ac a fydd yn dod â system sy'n seiliedig ar wahardd ar hyn o bryd i ben. Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn ddarostyngedig i ystod o Asesiadau Effaith a fydd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil.

## Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu trefniadau llywodraethu'r Adolygiad Diogelu Sengl er mwyn sicrhau bod y broses yn:

- cynnwys mecanwaith clir, effeithlon a thryloyw ar gyfer lledaenu argymhellion adroddiadau ar unwaith i bob asiantaeth unigol berthnasol ledled Cymru gyfan i'w rhoi ar waith;
- datgan yn glir pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob asiantaeth unigol berthnasol yn cael gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i roi'r argymhellion ar waith;
- datgan yn glir pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr argymhelliad hwnnw *yn* cael ei weithredu; a
- nodi'n glir pa gamau gorfodi a gymerir os na chaiff argymhellion eu gweithredu, pwy fydd yn cymryd y camau gorfodi hynny, a phryd a sut y cânt eu cymryd.

**Ymateb:** Derbyn.

Mae argymhellion y Pwyllgor wedi'u rhoi ar waith fel rhan o ddatblygu'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) yng Nghymru. Mae'r ADUS yn broses newydd ac fe'i lansiwyd ym mis Hydref 2024. Un o rolau allweddol yr ADUS yw cryfhau atebolrwydd ynghylch gweithredu argymhellion a chynlluniau gweithredu.

Rydym yn gweithio gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Phrifysgol Metropolitan Dinas Manceinion i ddarparu arweiniad cliriach ar nodi a gweithredu dysgu, ac eglurder argymhellion a chamau gweithredu.

Bydd y gwaith yn cael ei ymgorffori yn rhaglen hyfforddi ac adnoddau'r ADUS ar gyfer cadeiryddion, adolygwyr ac aelodau'r panel fel y gellir gweithredu dysgu o adolygiadau mor gyflym ac effeithiol â phosibl.

Er mwyn cefnogi darparu Canllawiau Statudol ADUS, rydym wedi:

- sefydlu strwythur llywodraethu tryloyw (Rhwydwaith Cymorth ADUS) a Grŵp Tasg a Chydlynu ADUS mewnol gydag arweinwyr polisi perthnasol i alluogi i argymhellion gael eu rhannu'n effeithlon ag asiantaethau perthnasol.
- sefydlu Hwb Cydgysylltu ADUS, sy'n rheoli olrhain argymhellion a chamau gweithredu cenedlaethol sy'n tarddu o adolygiadau, sy'n nodi cyfrifoldeb, yn monitro'r broses o gyflawni ac a ddefnyddir i gyfeirio materion hyd at lefel Bwrdd Gweinidogol ADUS pan fo angen; a
- datblygu Dangosfwrdd ADUS sy'n cael ei brofi ac a fydd ar gael i'r holl bartneriaid allanol perthnasol i fonitro gweithgarwch ADUS yn dryloyw ledled Cymru.

Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad ar ôl y flwyddyn gyntaf.

Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad blwyddyn gyntaf o Ganllawiau Statudol ADUS yn cael ei ddrafftio a bydd yn cynnwys dadansoddiad o drefniadau llywodraethu. Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei ystyried gan Grŵp Strategaeth ADUS Llywodraeth Cymru a fydd yn goruchwylio'r broses.

Rhagwelir mai dim ond pe bai'r holl drefniadau cadw cydbwysedd trwy ddefnyddio Rhwydwaith Cefnogi ADUS yn methu y byddai camau gorfodi yn cael eu rhoi ar waith. Byddai Arolygiaethau perthnasol yn cael eu hysbysu, a mater iddynt hwy fyddai ystyried pa gamau pellach sydd eu hangen, er enghraifft hysbysiad statudol o gamau gorfodi.

## Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Ar gyfer pob un o'r chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24:

- dyddiadau cyfarfod gwirioneddol.
- cofnodion o ba asiantaethau/sefydliadau a fynychodd bob cyfarfod; ac
- agendâu a chofnodion cyfarfodydd, gan gynnwys camau gweithredu y cytunwyd arnynt (wedi'u golygu fel y bo'n briodol).

**Ymateb:** Gwrthod.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru. Rhaid i'r adroddiad hwn amlinellu'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, asesiad o effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru ac argymhellion ar gyfer gwella arferion diogelu. Mae Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) (Rhif 2) 2015 hefyd yn nodi y dylai'r Bwrdd gadw cofnodion o'i gyfarfodydd (Rheoliad 4 (5)) ac y dylid sicrhau bod ei adroddiad blynyddol ar gael i'r cyhoedd (Rheoliad 8 (3)). Mae Rheoliad 5 (7) o

Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 yn nodi bod yn rhaid i Fyrddau Diogelu gadw cofnodion o'u cyfarfodydd.

Y tu hwnt i'r gofynion hyn, nid oes gofyniad cyfreithiol i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol na'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol gyhoeddi cofnodion eu cyfarfodydd, na manylion eraill am eu cyfarfodydd.

Byddai argymhelliad y Pwyllgor yn dyblygu rheoliadau sydd eisoes yn bodoli.

## Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hasesiad o effeithiolrwydd y chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol o ran dod â phartneriaid lleol a chenedlaethol ar draws asiantaethau statudol ac anstatudol, datganoledig ac fel arall, ynghyd i gyflawni gwelliannau diriaethol mewn arferion diogelu.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dyletswyddau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yw darparu cymorth a chyngor i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i sicrhau eu heffeithiolrwydd, adrodd ar ddigonolrwydd trefniadau diogelu a gwneud argymhellion ynghylch gwelliannau i Weinidogion Cymru. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gyfarfod â Chadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol o leiaf ddwywaith y flwyddyn i lywio eu gwaith.

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn darparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Caiff y rhain eu hystyried gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac maent yn llywio eu cynllun gwaith yn y dyfodol, ac mae aelodau hefyd yn rhoi adborth i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol unigol ar eu hadroddiadau blynyddol a'u cynlluniau gwaith. Mae aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn eistedd ar Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ledled Cymru ac mae hyn yn darparu lefel o gysondeb ar gyfer perthnasoedd.

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru a rhaid iddo gyflwyno unrhyw adroddiad arall y mae Gweinidogion yn gofyn amdano. Mae Cadeirydd yr NISB yn cyfarfod â'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ddwywaith y flwyddyn i drafod themâu sy'n deillio o'i waith ac o waith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

## Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr â phartneriaid statudol ac anstatudol, gan ddefnyddio gwaith sy'n bodoli eisoes, megis Pecyn Cymorth Ymarferwyr Diogelu Cymhleth Cymru Prifysgol Caerdydd, i ddatblygu cyfres o adnoddau a deunyddiau hyfforddi i wella ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol y rheng flaen o gamfanteisio troseddol a'r mathau eraill o wthio rhywun i'r ymylon a drafodir yn yr adroddiad hwn, a'u hymateb iddynt. Dylai'r adnoddau a'r deunyddiau hyn gael eu targedu at weithwyr

proffesiynol sy'n gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau ac sydd â chyswllt uniongyrchol â phlant sy'n agored i niwed (fel gwasanaethau cymdeithasol, adrannau tai, sefydliadau addysg, byrddau iechyd, ac ati). Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol perthnasol y rheng flaen ar draws y sector statudol – gan gynnwys y rhai a gyflogir gan sefydliadau a gomisiynir gan y sector statudol, megis elusennau – yn cael yr hyfforddiant hwnnw.

**Ymateb:** Derbyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ochr yn ochr â phartneriaid statudol ac anstatudol, gan gynnwys Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Byrddau Diogelu Rhanbarthol, i ddefnyddio gwaith sy'n bodoli'n barod megis Pecyn Cymorth Ymarferwyr Diogelu Cymhleth Cymru Prifysgol Caerdydd i gefnogi datblygiadau ymarfer.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dysgu ar-lein ar gaethwasiaeth fodern. Mae cynnwys y dysgu ar-lein wedi cael ei adolygu gan aelodau Grŵp Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Atal Caethwasiaeth Cymru. Mae'r dysgu ar-lein yn cynnwys gwaith ar Gamfanteisio Troseddol ar Blant ac yn tynnu sylw at Becyn Cymorth Ymarferwyr Diogelu Cymhleth Cymru.

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol a thimau Gweithlu Gofal Cymdeithasol mewn awdurdodau lleol yn comisiynu a/neu'n cyflwyno hyfforddiant amlasiantaethol ar ystod o bynciau diogelu gan gynnwys camfanteisio rhywiol a throseddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid o £12,000 y flwyddyn i bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i gyfrannu at eu rhaglenni hyfforddiant diogelu amlasiantaethol a £2,000 yn ychwanegol bob blwyddyn i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ddarparu ystod o weithgareddau yn yr Wythnos Diogelu Genedlaethol (a gynhelir fel arfer yn ystod trydedd wythnos mis Tachwedd).

## Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr â byrddau iechyd, heddluoedd ac asiantaethau statudol ac anstatudol perthnasol eraill i ddatblygu offeryn asesu risg camfanteisio troseddol ar blant Cymru gyfan i'w ddefnyddio gan staff y rheng flaen, gan gynnwys mewn lleoliadau gofal iechyd. Dylai'r rhaglen o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yr ydym yn ei hargymell yn Argymhelliad 11 gyd-fynd â chyflwyno'r offeryn asesu risg.

**Ymateb:** Gwrthod.

Rydym o'r farn bod mecanweithiau presennol yn addas i'r diben ac felly nid oes angen datblygu adnodd ychwanegol. Fel yr amlinellwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 11, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar gynyddu ymwybyddiaeth o Becyn Cymorth Diogelu Cymhleth i Ymarferwyr Cymru drwy adolygu Canllaw Arfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant rhag Camfanteisio Troseddol. Rydym hefyd yn datblygu dysgu ar-lein ar gaethwasiaeth fodern. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am Gamfanteisio Troseddol ar Blant.

## Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb llwyfan rhannu gwybodaeth diogelu Cymru gyfan, megis Traciwr Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg, i wella trefniadau rhannu gwybodaeth ledled Cymru.

**Ymateb:** Derbyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i archwilio'r llwyfannau rhannu gwybodaeth diogelu sy'n cael eu defnyddio ledled Cymru. Ar draws y dirwedd diogelu amlasiantaethol, mae amrywiaeth o bartneriaid gyda systemau gwybodaeth ac anghenion amrywiol y mae angen eu hystyried yn ofalus.

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru gan gynnwys Traciwr Bwrdd Diogelu Gorllewin Morgannwg, a'r gwaith 'Un Golwg ar y Plentyn' sydd wedi bod yn cael ei ddatblygu gan Gyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Rydym yn edrych ymlaen at ddeall taith y meysydd gwaith hyn a'r canlyniadau a gyflawnwyd yn dilyn eu cyfnodau peilot.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar ddatblygu'r uchelgais o ran Cysylltu Gofal, a fyddai'n cynnwys y potensial ar gyfer cofnod gofal i'w rannu. Bydd y rhaglen Cysylltu Gofal yn ymgorffori manteision technoleg cwmwl, gan ei gwneud hi'n haws cysylltu systemau a llwyfannau wrth symud ymlaen.

## Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl ei dealltwriaeth o effaith deddfwriaeth diogelu data ar waith amlasiantaeth mewn perthynas â diogelu plant sy'n agored i niwed er mwyn helpu cyrff statudol ac anstatudol i ddeall eu rhwymedigaethau diogelu data wrth gydweithio i gefnogi plant sydd ar yr ymylon a'u teuluoedd.

**Ymateb:** Derbyn.

Mae rhannu gwybodaeth yn allweddol i arferion diogelu da ac mae gan bartneriaid perthnasol ddyletswydd i roi gwybod am blant sydd mewn perygl o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhaid i weithwyr proffesiynol rannu gwybodaeth yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Er bod GDPR yn rhoi'r hawl i bobl gael gwybod sut mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio, mae hefyd yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu heb eu caniatâd os oes sail gyfreithlon dros wneud hynny.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi cyhoeddi Canllaw 10 cam ar rannu gwybodaeth i ddiogelu plant | ICO. Mae'r canllaw defnyddiol hwn yn cynnwys neges glir nad yw deddfwriaeth diogelu data yn atal unigolion rhag rhannu gwybodaeth i ddiogelu plant. Mae'r ICO wedi gwneud addewid na fydd pobl yn mynd i drafferthion os ydynt yn rhannu gwybodaeth i amddiffyn plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed

difrifol[1]. Mae hefyd wedi cyhoeddi adnoddau i'w defnyddio i chwalu'r camsyniadau o ran rhannu gwybodaeth, o dan y faner 'Meddwl. Gwirio. Rhannu.'[2]

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cynnwys 'awgrymiadau ymarfer' sy'n rhoi arweiniad yn seiliedig ar y datblygiadau ymchwil ac ymarfer diweddaraf. Maent yn cynnwys Saith rheol euraidd ar gyfer rhannu gwybodaeth. Yn gryno, mae'r rhain yn cynnwys: mae'r GDPR a'r Ddeddf Diogelu Data yn darparu fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth, pwysigrwydd ceisio caniatâd i rannu gwybodaeth lle mae'n ddiogel gwneud hynny, pwysigrwydd ceisio cyngor a'i bod yn bosibl rhannu gwybodaeth heb gydsyniad lle mae'n gyfreithlon gwneud hynny. Rhaid i benderfyniadau i rannu gwybodaeth mewn amgylchiadau o'r fath fod yn seiliedig ar ddiogelwch a lles pobl a rhaid iddynt fod yn gymesur, yn berthnasol ac yn amserol a dylid cofnodi'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae Canllaw Arfer Cymru Gyfan 'Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal'[3] yn cadarnhau pwysigrwydd rhannu gwybodaeth i atal cam-drin neu niwed difrifol i eraill ac mae'n cadarnhau nad bwriad deddfwriaeth diogelu data yw cael ei defnyddio fel rheswm dros beidio â gwneud hynny.

## Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyfodol hirdymor Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, gan amlinellu pa ddarpariaeth a ariennir yn ganolog, os o gwbl, fydd yn disodli'r fenter hollbwysig hon.

**Ymateb:** Derbyn.

Blaenoriaeth y gyllideb yn 2024-2025 oedd diogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Roedd y Cabinet yn wynebu cyfres o benderfyniadau anodd iawn ac wrth iddo ddatblygu'r gyllideb, ystyriodd a ddylid parhau i ariannu meysydd nad ydynt wedi'u datganoli lle'r ydym wedi camu i'r adwy yn draddodiadol i ddarparu cyllid lle nad oedd Llywodraeth flaenorol y DU yn darparu cymorth.

Cafodd yr arian cyfatebol ar gyfer y rhaglen ei ddarparu gan y pedwar heddlu. Rydym yn deall bod yr heddlu'n ystyried eu cyfranogiad mewn ysgolion ar hyn o bryd. Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi cytuno i ariannu rhaglen ysgolion yr heddlu, a bydd pob un o'r heddluoedd yn ystyried eu dull. Nid oes cyllid canolog wedi'i gynllunio ar gyfer menter debyg.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cyd-gynhyrchu pecyn cymorth i gefnogi ysgolion i ddylunio a datblygu eu Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles drwy bynciau iechyd a lles a nodwyd fel rhai blaenoriaeth uchel. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol i archwilio pa ddarpariaeth ac adnoddau presennol neu amgen sydd

[1] Gwaith Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i hybu rhannu data er mwyn diogelu plant – Hwb

[2] Rhannu gwybodaeth i ddiogelu plant: Deunyddiau marchnata | ICO

[3] Diogelu Cymru

ar gael i sicrhau bod gan blant wybodaeth i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a'u cadw'n ddiogel.

## Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ar rinweddau neu ddiffyg rhinweddau timau arbenigol o fewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant sy'n mynd ar goll, y camfanteisir arnynt yn rhywiol a/neu'n droseddol.

**Ymateb:** Derbyn.

Rydym yn cydnabod ac yn derbyn rhinweddau timau arbenigol fel rhai sy'n effeithiol o ran diwallu anghenion plant sy'n mynd ar goll ac sy'n dioddef camfanteisio rhywiol a/neu droseddol neu sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio.

Rydym hefyd yn cydnabod bod enghreifftiau o ymarfer eithriadol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru lle mae timau arbenigol yn rhan o'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Er enghraifft, y tîm Diogelu'r Glasoed rhag Camfanteisio (SAFE) yng Nghaerdydd. Yn yr un modd, mae manteision i drefniadau comisiynu sydd wedi'u datblygu o fewn rhanbarthau ac awdurdodau lleol i gontractio gwasanaethau arbenigol fel Barnardo's yn ôl y gofyn.

Mae rhanddeiliaid allweddol wedi dweud eu bod o'r farn bod cael tîm arbenigol yn bwysig, ond maent wedi nodi, fodd bynnag, bod yn rhaid i bob ymarferydd sydd â chysylltiad â phlant feddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau i ddelio ag unrhyw faterion diogelu sy'n codi, gan gynnwys gallu ymateb i blant sy'n mynd ar goll a/neu sydd wedi dioddef camfanteisio.

Mae darnau allweddol o ymchwil yn tynnu sylw at sut gall timau arbenigol chwarae rhan hollbwysig wrth fynd i'r afael â materion fel camfanteisio rhywiol a throseddol oherwydd yr wybodaeth arbenigol sydd gan y timau. Nid yw materion diogelu fel camfanteisio yn bodoli ar wahân. Maent yn digwydd yn bennaf o ganlyniad i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n gwneud unigolion yn agored i niwed. Byddwn yn parhau i fod yn wyliadwrus wrth ddelio â'r materion sy'n effeithio ar blant, ond byddwn yn gwneud hynny'n ofalus oherwydd y potensial y bydd delio â materion ar wahân yn arwain at ffocws dwys ar un mater ar draul ffactorau bregusrwydd pwysig eraill. Rhoddir ystyriaeth i ddull mwy integredig a chyfannol o fynd i'r afael â natur gymhleth camfanteisio ar blant.

Gall gweithgarwch atal chwarae rhan ehangach hanfodol wrth alluogi plant i ffynnu a helpu i'w cyfeirio tuag at gyflawni.

Mae lefel y galw yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, felly mae hyn yn gofyn am benderfyniad lleol/rhanbarthol sy'n seiliedig ar asesiad cynhwysfawr o anghenion.

## Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru canllawiau gwahardd i ysgolion er mwyn adlewyrchu ffactorau risg ehangach camfanteisio, fel y trafodir yn yr adroddiad hwn, a

sicrhau bod pob ysgol yn cael ei hatgoffa o ganlyniadau posibl gwahardd ac amserlenni rhan-amser. Ar yr un pryd, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cronfa o enghreifftiau lle mae ysgolion wedi llwyddo i gefnogi plant sy'n agored i niwed i aros yn yr ysgol, gan rannu'r astudiaethau achos hynny i lywio arfer gorau ar draws y sector.

**Ymateb:** Derbyn.

Rydym wedi sefydlu grŵp cynghori ar waharddiadau i'n cefnogi i gynnal adolygiad cynhwysfawr ac ailddatblygu'r canllawiau gwahardd o ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Bydd ffactorau risg ehangach camfanteisio, gan gynnwys atgoffa ysgolion am ganlyniadau posibl gwahardd ac amserlenni rhan-amser, yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn.

Rydym wedi gwahodd awdurdodau lleol i gymryd rhan yn y grŵp cynghori, a bydd yr astudiaethau achos sydd ar gael yn cael eu casglu fel rhan o'r gwaith hwn.

## Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ac adrodd yn ôl inni o fewn chwe mis ar y defnydd o'r gronfa ddata plant sy'n colli addysg er mwyn i awdurdodau lleol nodi a diogelu plant nad ydynt mewn lleoliadau addysg ac a allai, o ganlyniad, fod yn wynebu risg o gamfanteisio.

**Ymateb:** Derbyn (yn amodol ar gytundeb ynghylch amserlenni sy'n rhan o'r argymhelliad hwn).

Bydd rheoliadau cronfa ddata plant sy'n colli addysg yn cael eu treialu rhwng mis Mawrth 2025 a mis Mawrth 2026 gyda saith awdurdod lleol. Bydd gwerthusiad ffurfiol o'r trefniadau yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r peilot, er mwyn pennu effeithiolrwydd y trefniadau wrth nodi plant sy'n colli addysg, ac a allai fod mewn perygl o ganlyniad. Ar ôl i'r gwerthusiad o'r peilot ddod i ben, bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a bydd ar gael i'r Pwyllgor. Bydd y gwerthusiad yn cael ei gomisiynu'n allanol a chytunir ar ddyddiad ar gyfer cyflwyno'r adroddiad gyda'r contractwr unwaith y bydd y contract hwn wedi'i ddyfarnu.

## Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, ac ar ôl ystyried effaith (neu fel arall) y Siarter Rhianta Corfforaethol gwirfoddol ar ansawdd a chysondeb gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, dylai Llywodraeth Cymru nodi:

- pa ystyriaeth y mae wedi'i rhoi i osod ei Siarter Rhianta Corfforaethol ar sail statudol; ac
- unrhyw gamau pellach y mae'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas â rhianta corfforaethol, a'r llinellau amser ar gyfer gwneud hynny.

**Ymateb:** Derbyn.

Rydym eisiau i bawb rannu cyfrifoldeb am rianta corfforaethol ar draws cyrff y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys iechyd, addysg, tai a

chyrff eraill sydd oll yn gallu cyfrannu i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ffynnu ac yn llwyddo.

Mae'r Siarter Rhianta Corfforaethol wedi'i chyhoeddi yn wirfoddol er mwyn hyrwyddo a chyflwyno'r Siarter ac egwyddorion rhianta corfforaethol i sefydliadau y tu hwnt i awdurdodau lleol ac i hwyluso trafodaethau ar yr hyn y gallant ei gyflawni.

Rydym yn bwriadu defnyddio'r Siarter i wneud newid ansoddol go iawn ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Rydym eisiau i bob sefydliad gael dealltwriaeth wirioneddol o rianta corfforaethol, gan ei arddel a'i roi ar waith, a darparu'r cymorth sydd ei angen ar blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i gael yr un cyfleoedd bywyd â phobl ifanc eraill yng Nghymru.

Rydym yn bwriadu cryfhau'r canllawiau i awdurdodau lleol drwy bennod benodol ar Rianta Corfforaethol o fewn Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y bennod yn nodi dyletswyddau awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhieni corfforaethol ac yn cefnogi dull strategol cryfach ar gyfer rhianta corfforaethol a bydd yn cael ei chwblhau cyn diwedd tymor y Senedd hon.

Rydym yn parhau i archwilio'r dulliau deddfwriaethol presennol i gefnogi'r Siarter a chreu dull cyson o weithredu rhianta corfforaethol yng Nghymru.

Mae'r holl sefydliadau sydd wedi ymrwymo i'r Siarter wedi derbyn llythyr croeso gan y Prif Weinidog, bathodyn Rhiant Corfforaethol Cymru a thempled adduned i'w gwblhau. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'n Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol a bydd pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn chwarae rhan ganolog wrth adolygu'r templedi a rhoi adborth ar yr addunedau.

Byddwn yn cynnal ein digwyddiad ymarfer gorau cyntaf ar gyfer rhieni corfforaethol yn gynnar yn 2025.

## Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi:

- pa gymorth y mae wedi'i roi i awdurdodau lleol i'w helpu i ysgogi/mabwysiadu arloesiadau digidol sy'n gwella cyfathrebu â phlant mewn gofal; ac
- a yw'n ystyried y gallai'r ap a ddefnyddir yn Sir Ddinbych (neu lwyfannau tebyg a ddefnyddir mewn mannau eraill) warantu ymchwiliad pellach, gyda'r bwriad o'u cyflwyno ar draws awdurdodau lleol ledled y wlad.

**Ymateb:** Derbyn.

Mae Cod Ymarfer Rhan 6 Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya, Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, yn nodi sut dylai awdurdodau lleol ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu – er enghraifft, e-bost, ffôn a negeseuon testun – pan fyddant mewn cysylltiad â phlant mewn gofal.

Mae'r "Big Welcome" yn adnodd dwyieithog newydd ar y we a gafodd ei lansio gan Maethu Cymru a'i gyflwyno ar draws holl awdurdodau lleol Cymru y llynedd. Fe'i datblygwyd mewn ymateb i adborth gan blant mewn gofal i wasanaethau maethu a

nododd pa wybodaeth y byddent yn ei chael yn ddefnyddiol fel gwybod ble'r oeddent yn mynd i fyw tra'u bod mewn gofal maeth.

Drwy'r adnodd Big Welcome, gall gofalwyr maeth gael mynediad i'w proffiliau a chynnwys gwybodaeth amdanynt eu hunain, eu teulu a'u cartref gan gynnwys ffotograffau, i helpu i groesawu'r plentyn/person ifanc i'w cartref. Mae hyn yn helpu i dawelu meddyliau a lleddfu pryderon, a gall helpu'r plentyn/person ifanc ymdopi â'r newid wrth symud i ofalwr maeth newydd neu ddod i mewn i ofal am y tro cyntaf. Gan mai proses ar-lein yw hi, mae'r wybodaeth ar gael yn rhwydd sy'n arbennig o ddefnyddiol mewn sefyllfaoedd lleoliadau argyfwng.

Byddwn yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol i dreialu'r defnydd o dechnoleg arloesol fel defnydd Sir Ddinbych o "Mind of My Own" a byddwn yn ceisio nodi a rhannu arferion gorau apiau o'r fath ledled Cymru.

## Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir pa gynnydd y mae wedi'i wneud o ran sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Cenedlaethol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, a sut ac erbyn pryd y bydd y gwaith hwnnw'n myd rhagddo.

**Ymateb:** Derbyn.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yr un hawliau â phlant sy'n derbyn gofal a anwyd yng Nghymru a'r DU, waeth beth yw eu statws mewnfudo. Maent wedi'u cynnwys mewn unrhyw bolisi neu wasanaeth sy'n cael ei weithredu i gefnogi plant sy'n derbyn gofal; mae hyn yn cynnwys mynediad at wasanaethau iechyd ac addysg.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth yr Alban i gael dealltwriaeth o fodel gwarcheidiaeth yr Alban gan gynnwys ei gwmpas, ei fecanwaith cyllido a'i elfennau cymorth.

Mae gwahaniaethau rhwng y ddeddfwriaeth yng Nghymru a'r Alban. Mae'r ddeddfwriaeth yng Nghymru yn darparu hawl statudol i gymorth eiriolaeth annibynnol i bob plentyn a pherson ifanc mewn gofal, a chynghorydd personol i bob person ifanc pan fyddant yn troi'n 16 oed. Nid oes dyletswyddau cyfatebol yn rhan o ddeddfwriaeth yr Alban. Yn hytrach, mae Deddf Masnachu Pobl a Chamfanteisio (Yr Alban) 2015 yn darparu bod dyletswydd ar Weinidogion yr Alban i ddarparu gwarcheidwad ar gyfer pob plentyn cymwys, ac y bydd dyletswydd ar awdurdodau perthnasol i atgyfeirio unrhyw blentyn cymwys at warcheidwad.

Mae fy swyddogion hefyd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, Cymdeithas y Plant, Sefydliad Bevan a'r Groes Goch Brydeinig i drafod eu briff ar y cyd yn ymwneud â chyflwyno cynllun Gwarcheidwaeth yng Nghymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn am roi ystyriaeth bellach i'r hawliau statudol sydd eisoes ar gael i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru a sut y gallai Cynllun Gwarcheidiaeth ychwanegu gwerth at y rhain. Mae papur arall yn y broses o gael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2025.

Ochr yn ochr â Phartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru, cynhaliodd fy swyddogion weithdy gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i gael dealltwriaeth o'r cymorth amrywiol sydd ar gael i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches fel rhan o'u cyfrifoldebau statudol, ochr yn ochr â chymorth ychwanegol sy'n cael ei gynnig i'r garfan hon.

Byddwn yn cynnal ymarfer mapio manylach o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd drwy ein darpariaeth statudol, yn pennu'r bylchau yn y cymorth sydd ar gael i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, ochr yn ochr ag ystyried yr elfennau ychwanegol y gallai agweddau ar Gynllun Gwarcheidiaeth eu darparu. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio natur unrhyw Gynllun yn y dyfodol.

## Argymhelliad 22

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar unwaith i ddeall yn well natur a graddfa camfanteisio ar blant niwrowahanol a phlant sydd ag anableddau dysgu, a maint y broblem honno, gyda'r bwriad o weithio ochr yn ochr ag asiantaethau perthnasol i ddatblygu ymateb mwy effeithiol i ddiogelu'r grwpiau hyn o blant.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor.

Rydym yn cytuno ynghylch pwysigrwydd data i'n galluogi i gael gwell dealltwriaeth am brofiadau gwahanol grwpiau o bobl ac i gael tystiolaeth i lywio polisïau a darpariaeth. Rydym yn cydnabod bod bylchau yn y data cadarn a dibynadwy sydd ar gael, a bod angen rhagor o waith ar y cyd â Llywodraeth y DU, yr heddlu, ac eraill i gefnogi datblygiad data mwy soffistigedig.

Rydym yn cydnabod bod tystiolaeth sylweddol yn dangos bod plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol mewn mwy o berygl o ddioddef camfanteisio. Bydd fy swyddogion yn gweithio i hybu ymwybyddiaeth o'r risgiau hyn ymhlith ymarferwyr yn y sector.

## Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod:

- y cysylltiadau sylfaenol a chynhenid rhwng tlodi a cham-drin a chamfanteisio ar blant;
- er bod yr ysgogiadau mwyaf pwerus ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yn gorwedd mewn mannau eraill, mae ganddi bwerau i ddarparu cymorth ac i ddiogelu plant sy'n cael eu gwneud yn agored i niwed o ganlyniad i dlodi, a dylai gael ei dwyn i gyfrif, yn gwbl briodol, am ei llwyddiannau a'i methiannau wrth wneud hynny.

**Ymateb:** Derbyn.

Rydym yn gwybod bod rhieni sy'n byw mewn tlodi yn gwneud gwaith anhygoel wrth ofalu am eu plant er gwaethaf yr heriau sy'n dod i'w rhan bob dydd. Mae'n bwysig peidio ag awgrymu y bydd pob plentyn sy'n byw mewn tlodi yn profi camdriniaeth neu esgeulustod. Fodd bynnag, mae sylfaen dystiolaeth sylweddol ynghylch yr effaith y mae tlodi yn ei chael ar blant a sut gall byw mewn tlodi gynyddu'r risg o ddioddef

camdriniaeth, esgeulustod a niwed arall. Mae plant sy'n byw mewn tlodi yn debygol o gael un neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Mae ein Strategaeth Tlodi Plant yn cydnabod y dystiolaeth o gysylltiad rhwng tlodi a'r risg y bydd plant yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, gan adlewyrchu'r gydberthynas rhwng cam-drin domestig, iechyd meddwl gwael a chamddefnyddio sylweddau, mwy o risg o niwed i blant a mwy o risg o dlodi teuluoedd. Mae'r Strategaeth yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer y tymor hwy ac yn amlinellu sut byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth a chyda'n partneriaid i hybu i'r eithaf effaith y dulliau sydd ar gael i ni, gan gynnwys ein pwerau cynnull. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer gweithredu polisïau a rhaglenni sy'n cefnogi'r canlyniadau rydym eu heisiau ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc nawr ac yn y dyfodol.

Mae angen i wasanaethau weithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant, grymuso teuluoedd a chymunedau drwy ymyrraeth gynnar a'u cefnogi i ddelio â materion pan fydd pethau wedi mynd yn argyfwng. Mae amcan 5 y strategaeth yn targedu cydweithio â phartneriaid yn benodol gan nodi y byddwn yn sicrhau bod gwaith trawslywodraethol effeithiol ar lefel genedlaethol yn arwain at gydweithio cryf ar lefel ranbarthol a lleol.

Mae ein Strategaeth Tlodi Plant yn cynnwys amcan i gefnogi llesiant plant a theuluoedd a sicrhau bod gwaith ar draws Llywodraeth Cymru yn cyflawni ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi a'r flaenoriaeth i adeiladu cymunedau â gwasanaethau cydgysylltiedig a hygyrch i ddiwallu anghenion y gymuned.